

BLODAU GWYLLT A GLASWELLTIR BRODOROL

LAND

ECO  **CHURCH**
AN A ROCHA UK PROJECT



ALLCHURCHES TRUST LIMITED®
OWNERS OF ECCLESIASTICAL INSURANCE GROUP

www.ecochurch.arocha.org.uk



LAND

Blodau gwyllt brodorol

PAM?

Mor bell yn ôl â'r 1980au, roedd y Cyngor Gwarchod Natur yn amcangyfrif bod 98% o ddolydd lle byddai rhywogaethau amrywiol yn byw wedi diflannu yn y 30 mlynedd flaenorol. Mae hon yn broblem mor sylweddol nes bod Gerddi Botaneg Kew, yn eu Cronfa Hadau'r Mileniwm yn Wakehurst, wedi creu Casgliad o Hadau Brodorol y DU oedd, erbyn 2010, yn dal mwy na 96% o hadau'r holl fflora brodorol. Mae pobl yn dod yn fwy ymwybodol erbyn hyn bod mynwentydd (yn enwedig mewn pentrefi) yn cynnwys gweddillion olaf y dolydd hynafol oedd yn arfer gorchuddio cefn gwlad. Felly, mae mynwentydd yn hafanau, nid yn unig i flodau gwyllt, ond hefyd i gennau, mwsogl, glaswelltydd, rhedyn a ffyngau a nifer o fathau eraill o blanhigion ac anifeiliaid: <https://www.kew.org/science/our-science/projects/uk-native-seed-hub>

Mewn sir lle mae lefel y tir yn isel, fel Norfolk, mae 50% neu fwy o'r hyn sy'n weddill o'u blodau dolydd i'w cael mewn mynwentydd. Mae Norfolk yn un o nifer o Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt sydd wedi sefydlu cynllun cadwraeth mynwentydd neu sy'n cynnig cyngor ar reoli glaswelltir lleol: <https://www.norfolkwildlifetrust.org.uk/wildlife-in-norfolk/churchyards/churchyard-conservation-scheme>

Edrychwch i weld a yw eich Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt lleol, Esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru neu gyrff tebyg yn cynnig cynllun fel hyn.

Gallwch helpu i warchod amrywiaeth, waeth pa mor hen neu newydd, mawr neu fach yw eich tir awyr agored yn yr eglwys, drwy annog rhywogaethau brodorol sy'n darparu ffynonellau bwyd ar gyfer bywyd gwyllt brodorol.



LAND

Blodau gwyllt brodorol

SUT?

Yn gyntaf, mae'n talu ffordd i wneud arolwg o'ch planhigion cyn ystyried hau hadau blodau gwyllt, neu fel arall gallech chi amharu ar gydbwysedd y planhigion sydd yno'n barod drwy gyflwyno rhywogaethau newydd. Gwelwch ein hadnodd 'Arolwg Blodau Gwyllt Syml'.

Efallai bod llawer o amrywiaeth yno'n barod, felly gadewch i'r glaswellt dyfu ac arhoswch i weld pa rywogaethau sy'n ail ymddangos. Efallai y byddwch yn dod o hyd i blanhigion oedd heb gael cyfle i ffynnu am fod y glaswellt yn cael ei dorri'n rheolaidd neu am fod gwrtaith yn cael ei defnyddio. Mae blodau gwyllt yn ffynnu ar dir lle mae'r ffrwythlondeb yn isel felly gallai gymryd cwpwl o flynyddoedd o dynnu'r cnwd gwair, gan ostwng ffrwythlondeb y pridd, i ganfod a oes cronfa lwyddiannus o hadau yn y pridd a chyn i amrywiaeth o flodau ymddangos.

Efallai bod gennych bobl o fewn yr eglwys neu'r gymuned leol sy'n gallu cadw llygad ar y fynwent ar hyd y flwyddyn i weld pa blanhigion a blodau gwyllt sy'n ymddangos. Mae'n anodd adnabod planhigion o'u llystyfiant, felly mae'n hanfodol gadael rhai ardaloedd prawf heb eu torri i roi cyfle i blanhigion flodeuo a chael eu hadnabod. Efallai y byddai'r adnoddau hyn yn ddefnyddiol i'ch helpu chi:

CYMORTH I'W HADNABOD

- https://meadows.plantlife.org.uk/wp-content/uploads/2021/06/wildflower_Meadow_ID_guide.pdf
- <https://www.woodlandtrust.org.uk/trees-woods-and-wildlife/plants/wild-flowers/>
- <https://www.wildlifetrusts.org/wildlife-explorer/wildflowers>

Neu gofynnwch am gymorth gan eich Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt leol, y grŵp Plantlife, Caring for God's Acre neu Rwydwaith Cynghorwyr A Rocha – mae'n bosibl bod gennym rywun yn lleol i chi! Dyma'r manylion cysylltu:

- <https://www.wildlifetrusts.org/wildlife-trusts>
- <https://www.plantlife.org.uk/uk>



LAND

Blodau gwyllt brodorol

- <https://www.caringforgodsacre.org.uk/about-us/how-can-we-help-you/>
- <https://arochoa.org.uk/our-activities/advisor-network/>

Yn aml iawn mae llethrau, darnau llaith o dir, mannau cysgodol ac ardaloedd llawn cerrig beddau'n arbennig o ddiddorol am eu bod nhw'n lleoedd anoddach i dorri'r gwair, felly maen nhw'n cael eu gadael heb eu torri'n amlach a bydd llu o rywogaethau yno sy'n wahanol i'r rhai yng ngweddill y tir. Y rheswm am hyn yw bod y llethrau'n cael microhinsawdd gwahanol i'r mannau gwastad – mae'n gynhesach ar lethrau sy'n wynebu'r de a thipyn go lew'n oerach ar y rhai sy'n wynebu'r gogledd.

Unwaith y byddwch wedi canfod beth sydd yno neu ddim yno, byddwch eisiau creu cynllun o'r fynwent gan nodi pa ardaloedd i'w gadael yn hir fel dolydd y gwanwyn, pa rai fel dolydd yr haf, ymhle i dorri llwybrau, neu fannau eraill sydd â dibenion penodol. Bydd hyn i gyd yn bwydo i mewn i gynllun rheoli ar gyfer y fynwent.

Os byddwch chi'n penderfynu hau blodau gwyllt brodorol lle does dim llawer wedi ymddangos, gofynnwch am gyngor gan eich Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt lleol, ein rhwydwaith cynghorwyr neu grŵp tebyg yn gyntaf, fel eich bod yn hau'r cymysgedd blodau cywir ar gyfer eich math o bridd ac ardal o'r wlad.

Cofiwch integreiddio anghenion pobl yn ogystal â bywyd gwyllt yn eich cynlluniau. Os byddwch yn esbonio'n rheolaidd pam mae'r fynwent yn edrych yn wahanol, a'r cynnydd sy'n digwydd, bydd hyn yn helpu'n fawr i ennyn diddordeb y gymuned leol a sicrhau eu cefnogaeth. I lawer o bobl, mae'n bwysig hefyd cael 'blodau'r ardd' i'w mwynhau yn rhan o werth amwynder y lle, felly cymysgwch y mathau er mantais i bawb!



LAND

Blodau gwyllt brodorol

DEFNYDD DARLLEN HIRACH AC ADNODDAU ERAILL

I gael cyngor estynedig am greu a gofalu am ddolydd, ewch i Hyb Dolydd Plantlife: <https://meadows.plantlife.org.uk/>

Cewch awgrymiadau gan Caring for God's Acre yma am wneud arolwg syml: <https://youtu.be/O88xB10JPw> Bydd eu pecyn cychwyn arni yn eich helpu i adnabod bywyd gwyllt a phlanhigion cyffredin y gallech chi eu gweld yn eich mynwent: <https://www.caringforgodsacre.org.uk/wp-content/uploads/2020/02/CfGA-Starter-Guide-2020.pdf>

LLYFRAU

Mae *Wildlife in Church and Churchyard* gan Nigel Cooper, Church House Publishing, 2001, yn eithriadol o ddefnyddiol ar y pwnc yma.

Collins Wildflower Guide, gan David Street, Collins, 2016

ASTUDIAETHAU ACHOS

<https://www.gloucester.anglican.org/2020/wildflowers-thriving-after-diocesan-wildlife-garden-grant/>